



UNDEB EYRONEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **GWELLIANAU'R A40 LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN DATGANIAD AMGYLCHEDDOL: CRYNODEB ANNHECHNEGOL Gorffennaf 2019**

### **A40 LLANDDEWI VELFREY TO PENBLEWIN IMPROVEMENTS ENVIRONMENTAL STATEMENT: NON TECHNICAL SUMMARY July 2019**



CYFLWYNIAD	1	INTRODUCTION
CEFNDIR AC ANGEN Y CYNLLUN	2	BACKGROUND AND NEED FOR THE SCHEME
POLISIAU AC AMCANION	3	POLICIES AND OBJECTIVES
DISGRIFIAD O'R CYNLLUN	4	DESCRIPTION OF THE SCHEME
ADEILADU'R CYNLLUN	5	SCHEME CONSTRUCTION
OPSIYNAU ERAILL AYSTYRIWYD	6	ALTERNATIVES AND OPTIONS CONSIDERED
YMGYNGHORI AC ASESU	7	CONSULTATION AND ASSESSMENT
ASESIADAU AMGYLCHEDDOL	8	ENVIRONMENTAL ASSESSMENTS
BETH SY'N DIGWYDD NESAF?	9	WHAT HAPPENS NEXT?
RHAGOR O WYBODAETH	10	FURTHER INFORMATION
EICH BARNAU	11	YOUR VIEWS

Rhif ISBN: 978-1-78964-382-4 (argraffiad)  
Rhif ISBN: 978-1-78964-384-8 (electronig)  
Cyfeirnod Llywodraeth Cymru: qA1316455  
© Hawlfraint y Goron  
[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

ISBN Number: 978-1-78964-382-4 (print)  
ISBN Number: 978-1-78964-384-8 (electronic)  
Welsh Government Ref No: qA1316455  
© Crown Copyright  
[www.gov.wales](http://www.gov.wales)



Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gefnffyrd yng Nghymru. Mae'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr yn darparu cyswllt cefnffordd allweddol rhwng de-ddwyrain Cymru a Hwlfordd, y dref sy'n borth i borthladdoedd Aberdaugleddau a Abergwaun, yn ogystal ag economi twristiaeth canol a gogledd Sir Benfro.

Yn draddodiadol, mae'r rhan o'r A40 rhwng Sanclêr a Hwlfordd yn cysylltu pentrefi bach, ac fel y cyfryw, roedd llawer o rannau o'r A40 yn pasio drwy'r cymunedau hyn, gan arwain at faterion yn ymwneud â holli cymunedau, pryderon ynghylch aer a sŵn a phroblemau diogelwch. Darpariaeth gyfyngedig a geir ar hyn o bryd i oddiweddyd yn ddiogel ar yr A40 rhwng Hwlfordd a Sanclêr, ac mae hyn yn achosi amseroedd siwrneiau annibynadwy a rhwystredigaeth ymhlið gyrwyr, yn enwedig yn ystod misoedd prysur yr haf.

Ar ôl ystyried ystod o opsiynau posibl, mae Gweinidogion yn cynnig gwella Cefnffordd yr A40 dros hyd o 4.3km, gan gynnwys rhan newydd o ffordd i'r gogledd o bentref Llanddewi Felffre. Byddai'r rhannau diangen o ffordd bresennol yr A40 rhwng Llanddewi Felffre a Chylchfan Penblewin yn cael eu hail-dosbarthu ac yn peidio â bod yn gefnffordd, gyda pherchenogaeth yn mynd yn ôl i'r awdurdod priffyrrd lleol.

Gelwir y Cynllun arfaethedig yn Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y "Cynllun"). Dangosir lleoliad y Cynllun yn Ffigur 1.

Roedd cynigion y Cynllun yn amodol ar Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn unol â Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2011/92/EU, a ddiwygiwyd gan Cyfarwyddeb 2014/52/EU (atgyfeiriwyd ar y cyd fel y Cyfarwyddeb AEA). Mae'r olaf wedi'i dransgrifio mewn i gyfraith y DU trwy'r Ddeddf Priffyrrd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol yn Gysylltiedig a Harbyrau, Priffyrrd a Trafnidiaeth) 2017, a ddaeth mewn i rym ar 5 Rhagfyr 2017.

The Welsh Ministers are responsible for trunk roads in Wales. The A40 west of St Clears provides a key trunk road link between south-east Wales and Haverfordwest, which is a gateway town to the ports of Milford Haven and Fishguard, as well as the tourist economy of central and north Pembrokeshire.

The St Clears to Haverfordwest section of the A40 historically connects small villages and as such, many sections of the A40 passed through these communities, leading to issues around severance, air and noise concerns and safety problems. There is currently limited safe overtaking provision on the A40 between Haverfordwest and St Clears, which causes unreliable journey times and driver frustration, especially in busy summer months.

After considering a range of potential options, the Welsh Ministers propose to improve the A40 Trunk Road over a length of 4.3km, including a new section of road to the north of Llanddewi Velfrey village. The redundant sections of existing A40 road between Llanddewi Velfrey and Penblewin Roundabout would be reclassified and cease to be a trunk road, with ownership reverting to the local highway authority.

The proposed Scheme is called the A40 Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvements (referred to hereafter as the "Scheme"). The Scheme location is shown in Figure 1.

The Scheme proposals were subject to Environmental Impact Assessment (EIA), in accordance with European Directive 2011/92/EU, as amended by Directive 2014/52/EU (collectively referred to as the EIA Directive). The latter is transcribed into UK law through the Highways Act 1980 (as amended) and the Environmental Impact Assessment (Miscellaneous Amendments Relating to Harbours, Highways and Transport) Regulations 2017, which came into effect on 5 December 2017.

Yn unol â hynny, paratowyd Datganiad Amgylcheddol sy'n nodi prif effeithiau amgylcheddol y Cynllun ac yn disgrifio'r mesurau arfaethedig i osgoi, unioni neu leihau effeithiau a darparu gwelliant amgylcheddol lle bo'n ymarferol.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn sicrhau bod pawb sydd â buddiant yn y Cynllun, gan gynnwys y cyhoedd, yn deall y cynigion a'u bod yn cael cyfle i fynegi barn arnynt cyn i Weinidogion Cymru benderfynu p'un ai i gadarnhau'r Gorchmynion Statudol drafft ar gyfer y Cynllun.

Crynodeb Annhechnegol y Datganiad Amgylcheddol yw'r ddogfen hon, sy'n disgrifio'r Cynllun ac yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r broses AEA mewn iaith annhechnegol.

Mae Adroddiad Asesu Cynllun (yr "AAC") ar gael hefyd sy'n disgrifio'r agweddau ar y Cynllun nad oes a wnelont â'r amgylchedd mewn iaith glir. Dylid darllen y Crynodeb Annhechnegol hwn ochr yn ochr â'r AAC.

Cyhoeddwyd y Datganiad Amgylcheddol ar 31 Gorffennaf 2019, ochr yn ochr â Gorchmynion Statudol drafft y Cynllun. Rhestir Gorchmynion Statudol drafft y Cynllun yn yr AAC.


Accordingly, an Environmental Statement (ES), was prepared, identifying the main environmental effects of the Scheme and describing proposed measures to avoid, remedy or reduce effects and provide environmental enhancement where practicable.

The ES ensures that all those with an interest in the Scheme, including the public, understand the proposals and are given an opportunity to express an opinion on them before the Welsh Ministers decide whether to confirm the draft Statutory Orders for the Scheme.

This document is the ES Non-Technical Summary (the "NTS"), which describes the environmental aspects of the Scheme and provides an overview of the findings of the EIA process in non-technical language.

A Scheme Assessment Report (the "SAR") is available which describes the non-environmental aspects in plain language. This NTS should be read alongside the SAR.

The ES was published on 31 July 2019, alongside the Scheme draft Statutory Orders. The Scheme draft Statutory Orders are listed in the SAR.



Ffigur 1: Lleoliad y Cynllun

Figure 1: Scheme location

Mae'r A40 yn llwybr o bwysigrwydd strategol cenedlaethol a rhyngwladol, yn rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T). Ar lefel ranbarthol a lleol, mae'n gwasanaethu tref sirol Hwlfordd, economi twristiaeth canol a gogledd Sir Benfro, porthladd Abergwaun a thref ddiwydiannol Aberdaugleddau i'r de.

Er hyn, mae'r rhan o'r A40 rhwng Sanclêr a Hwlfordd yn llwybr o ansawdd cymharol wael. Fe'i disgrifiwyd yn flaenorol fel "*un o'r rhannau o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd o'r safon isaf yn y Deyrnas Unedig*".

Fe wnaeth astudiaeth Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn 2017 nodi problemau i fynd i'r afael â nhw ar yr A40 rhwng Llanddewi Felffre a Phenblewin, a oedd yn cynnwys ystod o broblemau gwirioneddol a chanfyddedig (gweler Ffigur 2):

1. Cyfleoedd cyfyngedig ac anghyson i oddiweddyyd, sy'n arwain at amserau siwrneiau annibynadwy, rhwystredigaeth ymhlið gyrwyr a symudiadau peryglus cysylltiedig gyda gwrthdrawiadau difrifol;
2. Mae platwnio (lle ceir confois o gerbydau nwyddau trwm o'r porthladdoedd fferi a cherbydau amaethyddol yn symud yn araf sy'n defnyddio'r llu o ffyrdd ymyl a mynedfeydd ffermydd ar hyd yr A40) yn cyfrannu at amserau siwrneiau annibynadwy wrth gyfuno hynny â chyfleoedd cyfyngedig i oddiweddyyd a chymysgedd o draffig lleol a thraffig cerbydau nwyddau trwm;
3. Mae llwybr yr A40 yn pasio drwy'r ardal boblog, gan holli'r gymuned, a chreu problemau llygredd aer a sŵn yn y gymuned leol yn Llanddewi Felffre;
4. Mae traffig sy'n symud yn araf yn ystod misoedd yr haf yn gwaethyg problemau, gyda thwristiaid yn achosi cynnydd sylweddol mewn traffig a cherbydau sy'n symud yn araf, gan gynnwys carafannau;

The A40 is a route of national and international strategic importance, forming part of the Trans-European Transport Network (TEN-T). At a regional and local level, it serves the county town of Haverfordwest, the tourist economy of central and north Pembrokeshire, the port of Fishguard and the industrial town of Milford Haven to the south.

Despite this, the section of the A40 between St Clears and Haverfordwest is a relatively poor-quality route. It has previously been described as "*one of the lowest standard sections of the Trans-European Road Network in the United Kingdom*".

A 2017 Welsh Transport Appraisal Guidance (WelTAG) study identified problems to be addressed on the A40 between Llanddewi Velfrey and Penblewin, which comprised a range of actual and perceived problems (see Figure 2):

1. Limited and inconsistent overtaking opportunities, which lead to journey time unreliability, driver frustration and associated risky manoeuvres with severe collision incidents;
2. Platooning (when there are convoys of heavy goods vehicles (HGVs) from the ferry ports and slow-moving agricultural vehicles accessing the many side roads and farm accesses along the A40) contributes to journey time unreliability when combined with the limited overtaking opportunities and mix of local and HGV traffic;
3. The route of the A40 passes through the populated area, creating severance and air and noise pollution problems within the local community at Llanddewi Velfrey;
4. Slow moving traffic during the summer months exacerbate the problems with tourists causing a significant increase in traffic and slow-moving vehicles including caravans;

5. Ceir lefelau cynhyrchiad is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y rhanbarth ac effeithiwyd yn anghymesur arno gan y dirwasgiad gan ystyried ei ddibyniaeth (o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol) ar dwristiaeth, gweinyddiaeth gyhoeddus, y diwydiannau cyfanwerthu a manwerthu (yn cynnwys amaethyddiaeth), gweithgynhyrchu ac adeiladu;
  6. Diweithdra yn y rhanbarth ar ei uchaf ym mhrif ardaloedd diwydiannol Aberdaugleddau a Doc Penfro, sydd â'r lefelau cyrhaeddiad isaf, gan adlewyrchu proffiliau economaidd-gymdeithasol ehangach yr ardaloedd hyn;
  7. Mae diffyg sefydliadau addysg uwch yn Sir Benfro yn golygu bod rhaid i ddarpar ffyfwyr adael y Sir i astudio; ac
  8. Ystyrir bod Sir Benfro yn anghysbell a bod hyn yn rhwystro mewnfuddsoddiad, twristiaeth a datblygiad y farchnad teithio-i'r-gwaith yn Ninas Rhanbarth Bae.
- Abertawe.
5. The region has lower than national average productivity levels and was disproportionately impacted by the recession in light of its reliance (compared to the national averages) on tourism, public administration, wholesale and retail (including agriculture), manufacturing and construction industries;
  6. Unemployment in the region is highest in the main industrial areas of Milford Haven and Pembroke Dock, which have the lowest levels of attainment reflecting the wider socio-economic profiles of these areas;
  7. The absence of higher education establishments in Pembrokeshire means that prospective students have to leave the County to study; and
  8. Pembrokeshire is perceived to be remote and this is deterring inward investment, tourism and the development of the travel-to-work market within the Swansea Bay City Region.



Ffigur 2: Yr A40 trwy bentref Llanddewi Felffre

Figure 2: The A40 through Llanddewi Velfrey village

Mae'r cynigion hyn yn cefnogi cyfeiriad ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru fel y'u hamlinellwyd yn ei Rhaglen Lywodraethu 'Symud Cymru Ymlaen' a'r Strategaeth Genedlaethol 'Ffyniant i Bawb' (2017), y 'Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol' (2010) a'r 'Cynllun Ariannu' (2015), 'Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008' a 'Pholisi Cynllunio Cymru' (2016).

Ystyriwyd ystod eang o ddogfennau deddfwriaeth a pholisi fel rhan o waith datblygu'r Cynllun, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd 2016, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a'r Cynlluniau Datblygu Lleol perthnasol. Mae Pennod 5 o'r Datganiad Amgylcheddol yn adrodd ar yr holl ddeddfwriaeth a pholisi a ystyriwyd wrth ddatblygu'r Cynllun.

Cytunwyd ar wyth o Amcanion penodol fel rhan o Grŵp Adolygu'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), sef:

<b>A1</b>	Gwella gwydnwch y rhwydwaith a gwella hygyrchedd ar hyd corridor trafnidiaeth y dwyrain-gorllewin er mwyn cyrraedd cychfannau allweddol o safbwyt cyflogaeth, cymunedau a thwristiaeth.	<b>O1</b>	To enhance network resilience and improve accessibility along the east-west transport corridor to key employment, community and tourism destinations.
<b>A2</b>	Gwella ffyniant a darparu gwell mynediad i dref sirol Hwlfordd, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a phorthladdoedd Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro yng Ngorllewin Cymru.	<b>O2</b>	To improve prosperity and provide better access to the county town of Haverfordwest, the Haven Enterprise Zone and the West Wales ports at Fishguard, Milford Haven and Pembroke Dock.
<b>A3</b>	Lleihau holli cymunedol a chreu buddion o ran iechyd ac amwynderau.	<b>O3</b>	To reduce community severance and provide health and amenity benefits.
<b>A4</b>	Lleihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau.	<b>O4</b>	To reduce the number and severity of collisions.
<b>A5</b>	Hyrwyddo teithio llesol drwy feicio, marchogaeth a cherdded er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl fyw bywydau iach.	<b>O5</b>	To promote active travel by cycling, horse riding and walking to provide opportunities for healthy lifestyles.
<b>A6</b>	Cyflawni Cynllun sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac sy'n integreiddio â'r rhwydwaith trafnidiaeth lleol er mwyn cysylltu cymunedau lleol yn well â chanolfannau trafnidiaeth allweddol.	<b>O6</b>	To deliver a Scheme that promotes social inclusion and integrates with the local transport network to better connect local communities to key transport hubs.
<b>A7</b>	Cyflawni prosiect sy'n gynaliadwy o fewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang, gan gymryd camau i leihau neu wrthbwys o gwastraff a charbon.	<b>O7</b>	Deliver a project that is sustainable in a globally responsible Wales, taking steps to reduce or offset waste and carbon.
<b>A8</b>	Rhoi ystyriaeth ofalus i effaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd a chyflwyno gwelliannau lle bo hynny'n ymarferol.	<b>O8</b>	Give due consideration to the impact of transport on the environment and provide enhancement when practicable.

Dyluniwyd y Cynllun i fodloni amcanion y prosiect trwy ddarparu cyfleoedd i oddiwedd ydy gyda cherbytffordd '2+1' (dwy lôn i un cyfeiriad i alluogi goddiwedd ydy, ac un lôn i'r cyfeiriad arall). Bydd cyfleoedd i oddiwedd ydy bob yn ail fel y gall traffig tua'r dwyrain a thua'r gorllewin oddiwedd ydy. Bydd y rhain yn darparu mwy nag 1km o gyfleoedd ychwanegol i oddiwedd ydy i'r ddua gyfeiriad. Disgrifir y Cynllun o'r gorllewin i'r dwyrain, yn dechrau ym Mhenblewin yn y gorllewin ac yn symud ymlaen tuag at Gapel Bethel yn y dwyrain, gan ddefnyddio enwau mannau lleol.

Ym Mhenblewin, bydd angen cylchfan newydd i ddarparu ar gyfer y Cynllun, a fyddai'n ymestyn tua'r dwyrain r arglawdd ar aliniad fwy neu lai yn gyfochrog â'r A40 bresennol. Byddai Trefangor Cottage yn cael ei ddymchwel. Byddai'r A40 bresennol yn darparu mynediad lleol i eiddo i'r de, tra byddai ffordd leol newydd yn cael ei hadeiladu ar yr ochr ogledol i gario traffig lleol i ffermydd, eiddo preswyl, caeau a claddfa Trefangor. Dangosir y trefniant cyflin hwn yn Ffigur 3.

The Scheme was designed to meet the project objectives by providing overtaking opportunities with a '2+1' carriageway (two lanes in one direction to allow overtaking, and one lane in the opposite direction). Overtaking opportunities will alternate so that both eastbound and westbound traffic can overtake. These will provide more than 1km of extra overtaking opportunities in both directions. The Scheme is described from west to east, starting at Penblewin in the west and proceeding towards Bethel Chapel in the east, using local place names.

At Penblewin, a new roundabout will be required to accommodate the Scheme, which would extend eastwards on embankment on a roughly parallel alignment with the existing A40. Trefangor Cottage would be demolished. The existing A40 would provide local access to properties to the south, while a new local road would be constructed on the north side to carry local traffic to farms, residential properties, fields and Trefangor burial ground. This parallel arrangement is illustrated in Figure 3.




Ffigur 3: Yr A40 bresennol a newydd a ffordd yr ochr ogledol i'r dwyrain o Benblewin (yn edrych i'r gorllewin)

Figure 3: Existing and new A40 and the northern side road east of Penblewin (looking west)

Yn Henllan Lodge, byddai'r Cynllun yn dilyn aliniad yr A40 bresennol. Byddai'r gyffordd ag isffordd sirol ar yr ochr ddeheuol a'r Fynedfa Lleol a'r llwybr marchogaeth ar yr ochr ogleddol yn cael eu cau. Byddent yn clymu i mewn â ffordd yr A40 y tynnir ei statws cefnfforddi'r de, a'r ffordd ymyl un lôn newydd, arfaethedig i'r gogledd, yn y drefn honno. Byddai llwybr marchogaeth a llwybr beicio newydd yn ymestyn tua'r dwyrain ar hyd ffin deheuol y gefnfordd newydd at danffordd newydd a ddarperir o dan yr A40 gerllaw Capel Ffynnon. Byddai'r Cynllun yn dilyn arglawdd y ffordd bresennol trwy Goed Ffynnon, er y byddai'r gerbytffordd letach yn mynnu bod yr arglawdd hwnnw'n cael ei ledu. Byddai'r gerbytffordd newydd ymhellach oddi wrth Gapel Ffynnon, gan roi lle ar gyfer ffordd fynediad newydd at eiddo preswyl a chaeau, a fyddai'n clymu i mewn a'r fynedfa bresennol i Ffynnon.

At Henllan Lodge, the Scheme would follow the alignment of the existing A40. The junction with a minor county road on the south side and the Local Access and bridleway on the north side would be stopped-up. They would tie-in to the detrunked A40 road to the north, and the proposed new single lane side road to the south, respectively. A new bridleway and cycleway would extend east along the southern boundary of the trunk road to a new underpass provided under the A40 close to Ffynnon Chapel. The Scheme would follow the existing road embankment through Ffynnon Wood, although the wider carriageway would result in the widening of that embankment. The new carriageway would be further from Ffynnon Chapel, allowing space for a new access road to residential properties and fields, which would tie-in to the existing access to Ffynnon.



**Ffigur 4: Cyffordd Gorllewin Llanddewi Felffre (yn edrych tua'r gorllewin)**

**Figure 4: Llanddewi Velfrey West Junction (looking west)**

Tuag at ymyl ddwyreiniol Coed Ffynnon, byddai'r Cynllun yn tynnu i'r gogledd o'r A40 bresennol. Byddai cyffordd groesgam yn rhoi mynediad i anheddiad Coed Ffynnon i'r gogledd a'r A40 bresennol i Landdewi Felffre, i'r de. Dangosir y gyffordd groesgam yn Ffigur 4. Byddai angen mynedfa breifat ar gyfer Fferm Pentroydin Fach a byddai tanffordd fferm yn cael ei darparu ar gyfer Pentroydin Fach i roi mynediad i gaeau i'r de o'r ffordd.

Gan barhau tua'r dwyrain, byddai'r Cynllun yn croesi llethr gogleddol mwyfwy serth gwrym Llanddewi Felffre a byddai'n pasio i'r de o Fferm Pentroydin Fach. Gan barhau ar yr arglawdd, byddai'r Cynllun yn crymu i'r de o amgylch y pentref. Gan basio i mewn i'r drychfa, byddai'r Cynllun yn croesi o dan bont newydd a fyddai'n cael ei hadeiladu i gario Heol Llanfallteg Road. Dangosir y bont arfaethedig yn Ffigur 5.

Towards the eastern edge of Ffynnon Wood, the Scheme would draw to the north of the existing A40. There would be a staggered junction giving access to the settlement of Ffynnon Wood to the north and the existing A40 to Llanddewi Velfrey, to the south. The staggered junction is illustrated in Figure 4. A PMA for Pen-troydin-fach Farm would be required and a farm underpass provided for Pen-troydin-fach to provide access to fields to the south of the road.

Continuing east, the Scheme would traverse the increasingly steep north slope of the Llanddewi Velfrey ridge and would pass to the south of Pen-troydin-fach Farm. Continuing onto embankment, the Scheme would curve to the south around the village. Passing into cutting, the Scheme would cross under a new bridge which would be constructed to carry Llanfallteg Road. The proposed bridge is illustrated in Figure 5.



Ffigur 5: Trosbont Heol Llanfallteg (dynesu o'r gorllewin)

Mae'r tirffurf i'r dwyrain o Heol Llanfallteg yn mynd yn fwy bryniog gyda llethr y gwrym yn cael ei ddyrannu gan gymoedd bach. Mae'r Cynllun yn croesi'r cymoedd hyn ar arglawdd. Bydd y cyrsiau dŵr bach yn cael eu sianelu o dan yr arglawdd a byddai angen tanffordd i gario nifer o lwybrau troed cyhoeddus dargyfeiriedig ar draws y cerbytffordd.

Oddi yma, gan fynd tua'r dwyrain, byddai'r Cynllun yn pasio i mewn i drychfa, i ddod allan a chyfarfod llinell yr A40 bresennol wrth Gapel Bethel. Byddai cylchfan pedair braich gerllaw'r capel, gyda mynedfa breifat newydd yn cael ei darparu ar yr ochr ogleddol i'r capel a nifer o eiddo preifat. Ar yr ochr ddeheuol, byddai cyswllt ffordd i Landdewi Felffre yn cael ei ddarparu. Byddai'r Cynllun a'r A40 bresennol yn clymu i mewn ar frig Fron Hill.

Byddai angen pedwar cronbwll ar gyfer draenio'r ffordd fel y gall dŵr o'r ffordd gael ei ryddhau ar gyfradd reoledig i gyrsiau dŵr. Bydd y rhain wedi'u lleoli ledled y cynllun gerllaw cyrsiau dŵr presennol.

The landform to the east of Llanfallteg Road becomes more rolling with the ridge slope dissected by small valleys. The Scheme crosses these valleys on an embankment. The small watercourses will be culverted under the embankment and an underpass would be required to carry several diverted public footpaths across the carriageway.

From here, going eastwards, the Scheme would pass into a cutting, to emerge and meet the line of the existing A40 at Bethel Chapel. Close to the chapel would be a four-arm roundabout, with a new PMA provided on the north side to the chapel and several private properties. On the south side, a road link to Llanddewi Velfrey would be provided. The Scheme and the existing A40 would tie-in at the top of Fron Hill.

Four balancing ponds would be required for road drainage so that water from the road can be released at a controlled rate into watercourses. These will be located throughout the length of the scheme close to existing watercourses.



Figure 5: Llanfallteg Road Overbridge (westbound approach)

Os yw Gweinidogion Cymru yn cadarnhau'r Gorchmynion, gallai'r gwaith adeiladu ddechrau yn dechrau 2021, a gallai'r Cynllun agor yn hydref 2022. Gallai gweithdrefnau Statudol, amodau'r tywydd neu amodau peirianegol nas rhagwelwyd ar y safle effeithio ar ddechrau'r gwaith adeiladu. Byddai pum mlynedd o waith cynnal a chadw'r dirwedd ac ôl-ofal yn dilyn y cam adeiladu.

Yr oriau gweithio adeiladu fyddai 0700 i 1900 fel arfer (Llun i Gwener), a 0700 i 1700 ar ddydd Sadwrn. Mewn rhai amgylchiadau, gall fod rhaid ymgymryd â gwaith penodol y tu allan i'r oriau hyn, a gall fod angen rhywfaint o weithio dros nos. Byddai angen rheolaeth dros dro ar draffig lle mae'r Cynllun yn cyfarfod â ffyrdd presennol.

### Adeiladu fesul cam

Yn nodweddiadol, byddai trefn y gwaith yn ystod cyfnod adeiladu'r Cynllun yn dechrau gyda chodi ffensys dros dro ar hyd y corridor adeiladu, ac yna cynnal ymchwiliadau archaeolegol, clirio safleoedd llystyfiant, gwaith dymchwel a dargyfeirio neu warchod cyfleustodau.

Gyda'r corridor adeiladu wedi'i baratoi, byddai'r camau nesaf yn cynnwys cloddio trychfeydd a chronbyllau, codi argloddiau ac adeiladu strwythurau fel y pontydd a'r cwl fertau. Gyda'r rhain yn eu lle, byddai'r gerbytffordd newydd yn cael ei hadeiladu, yna gosodir colofnau goleuadau, arwyddion ffyrdd, rhwystr diogelwch a rhagor o ffensys. Yn olaf, byddai gwaith plannu'r dirwedd a'r adeiladwaith hwylustod, gan gynnwys mynedfeydd newydd i gaeau, yn cael ei gwblhau.

If the Welsh Ministers confirm the Orders, construction could start in early 2021 and the Scheme could open in autumn 2022. The start of construction could be affected by Statutory procedures, weather conditions or unforeseen engineering conditions experienced on site. Following the construction phase, there would be five years of landscape maintenance and aftercare.

Construction working hours would normally be 0700 to 1900 hours (Monday to Friday), and 0700 to 1700 hours on Saturdays. In certain circumstances, specific works may have to be undertaken outside these hours with some night working required. Temporary traffic management would be necessary where the Scheme meets existing roads.

### Phasing of construction

The sequence of works during construction of the Scheme would typically commence with temporary fencing of the construction corridor, closely followed by archaeological investigations, vegetation site clearance, demolition works and the diversion or protection of utilities.

With the construction corridor prepared, the next steps would include the excavation of cuttings and balancing ponds, the building of embankments and the construction of structures such as the bridge and culverts. With these in place, the new carriageway would be constructed, followed by the installation of lighting columns, road signs, safety barrier and further fencing. Finally, the landscape planting and accommodation works, including new field accesses, would be completed.

## Beth fydd yn digwydd i'r hen ffordd

Tynnir statws cefnffordd y ffordd bresennol a byddai cyfrifoldeb yn pasio o Weinidogion Cymru i Gyngor Sir Penfro, ac eithrio'r rhan rhwng Cylchfan Penblewin a'r Ardal Orffwys. Byddai'r ffordd trwy'r pentref yn gwasanaethu traffig lleol gyda blaenoriaethau wedi'u newid i anghymhell traffig drwodd. Gall y cerbytffordd lleihau o ran maint a gall llwybrau cerdded a beicio gwell gael eu darparu. Gall groesfan i gerddwyr hefyd gael ei osod yn y pentref.

## What will happen to the old road

The existing road would be detrunked and responsibility passed from the Welsh Ministers to Pembrokeshire County Council, with the exception of the section between Penblewin Roundabout and the Rest Area. The detrunked road would serve local traffic with priorities changed to discourage through traffic. The carriageway could be reduced in size and improved pedestrian and cycle routes could be provided. A pedestrian crossing facility could also be installed in the village.



Ffigur 6: Yr A40 presennol ger lleoliad Cyffordd arfaethedig Gorllewin Llanddewi Felffre

Figure 6: The existing A40 near the proposed Llanddewi Velfrey Junction West

Fe wnaeth astudiaethau blaenorol ddynodi'r angen am welliannau a cynorthwyo â datblygu'r dyluniad a ffefrir ar gyfer gwneud gwelliannau prifffordd ar hyd yr A40 rhwng Sanclêr a Hwlfordd. Ym mis Tachwedd 2001, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fframwaith Trafnidiaeth Cymru, a adroddodd ar astudiaeth aml-foddol o'r corridor trafnidiaeth o'r dwyrain-gorllewin yng Ngorllewin Cymru. Daeth hon i'r casgliad fod angen gwneud gwelliannau ar yr A40 i'r gorllewin o Sanclêr.

Ym mis Mawrth 2002, cyhoeddwyd y Blaenraglen Cefnffyrrd yn cynnwys yr A40 i'r Gorllewin o Sanclêr. Roedd yr astudiaeth yn ystyried gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a daethpwyd i'r casgliad bod y costau'n gysylltiedig â gwell gwasanaethau i deithwyr yn debygol o fod yn uwch na'r refeniw, gan fynnu cymhorthdal gweithredu felly. Cydnabuwyd hefyd na fyddai gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau maint y traffig ar gefnffordd yr A40. Fe wnaeth gwaith cynnar, felly, lywio'r penderfyniad i fynd ar drywydd gwelliannau ffordd ar yr A40 ac aeth astudiaeth o opsiynau llwybrau ati i archwilio opsiynau ffordd unffrwd a ffordd ddeuol.

Yn 2004, cyhoeddwyd dau brif Cynllun gwella ffordd unffrwd ar gyfer yr A40 i'r gorllewin o Sanclêr:

- A40 Penblewin - Parc Slebets
- A40 Llanddewi Felffre - Penblewin.

Yn dilyn adolygiad o'r 'A40 i'r Gorllewin o Sanclêr' yn 2008, cyhoeddwyd Llwybr a Ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

Daeth adolygiad yn 2015 i'r casgliad bod achos da dros fwrw ymlaen â Chynllun Gwella'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin.

Previous studies identified the need for improvements and assisted in the development of the preferred design of highway improvements along the A40 between St Clears and Haverfordwest. In November 2001, the National Assembly for Wales published The Transport Framework for Wales, which reported on a multi-modal study of the east-west transport corridor in West Wales. This concluded that the A40 west of St Clears was in need of improvements.

In March 2002, the Trunk Road Forward Programme (TRFP) was published and included the A40 West of St Clears. The study considered public transport improvements and it was concluded that the costs associated with enhanced passenger services were likely to exceed revenue, thus requiring an operating subsidy. It was also acknowledged that improvements to public transport would not reduce the amount of traffic on the A40 trunk road. Early work therefore steered the decision to pursue road based enhancements on the A40 and a route options study explored single and dual carriageway options.

In 2004, two major single carriageway improvement Schemes for the A40 west of St Clears were announced:

- A40 Penblewin - Slebech Park
- A40 Llanddewi Velfrey - Penblewin.

Following a review in 2008 of the 'A40 West of St Clears Study', a Preferred Route was announced by the Welsh Government.

A review in 2015, concluded that there is a good case for proceeding with the A40 Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvement Scheme.

Arweiniodd cefnogaeth weinidogol barhaus i'r Cynllun at benderfyniad ym mis Chwefror 2017 i ddatblygu Synllun, gyda Llywodraeth Cymru'n penodi Carillion, gydag Arup ac RML (heb Carillion ar ôl hynny), fel eu cynghorwyr technegol ac amgylcheddol, ac Arcadis a Mott Macdonald fel cynghorwyr technegol ac amgylcheddol y Cyflogwr, i ddatblygu dyluniad gwelliannau arfaethedig yr A40 Llanddewi Felffre i Benblewin hyd at gyhoeddi'r Gorchmynion drafft.

Ongoing ministerial support of the Scheme led to a decision in February 2017 to develop a Scheme, with the Welsh Government appointing Carillion, with Arup and RML (subsequently without Carillion), as their technical and environmental advisors, and Arcadis and Mott MacDonald as the Employer's technical and environmental advisors, to develop the design of the proposed A40 Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvements up to publication of draft Orders.

Cwblhawyd y cyntaf o'r prosiectau hyn, Penblewin - Parc Slebets, ym mis Mawrth 2011. Gwnaed gwaith datblygu pellach hefyd ar gyfer prosiect yr A40 Llanddewi Felffre - Penblewin. Arweiniodd hyn at nifer o opsiynau llwybrau arfaethedig:

**Llwybr glas:** opsiwn ffordd osgoi i'r gogledd o Llanddewi Felffre o Fferrm Gwyndy i Goed Ffynnon;

**Llwybr coch:** opsiwn sy'n dilyn y gefnffordd bresennol yn agos;

**Llwybr orenn:** gwelliant ar-lein i'r gefnffordd bresennol rhwng Coed Ffynnon a Chylchfan Penblewin;

**Llwybr porffor:** gwelliant all-lein rhwng Coed Ffynnon Chylchfan Penblewin.

Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus, roedd cefnogaeth glir ymhilith y cyhoedd i'r llwybr glas, ynghyd â chefnogaeth i welliannau rhwng Coed Ffynnon a Chylchfan Penblewin.

The first of these projects, Penblewin - Slebech Park, was completed in March 2011. Further development work was also undertaken for the A40 Llanddewi Velfrey - Penblewin project. This resulted in several proposed route options:


**Blue route:** a bypass option to the north of Llanddewi Velfrey from Gwyndy Farm to Ffynnon Wood;

**Red route:** an option which follows closely the existing trunk road;

**Orange route:** an on-line improvement of the existing trunk road between Ffynnon Wood and Penblewin Roundabout; and

**Purple route:** an off-line improvement between Ffynnon Wood and Penblewin Roundabout.

During a period of public consultation, there was clear public support for the blue route, along with support for improvements between Ffynnon Wood and Penblewin roundabout.



**Figur 8: Opsiynau a gyflwynwyd yn Ymgynghoriad Cyhoeddus 2006**

**Figure 8: Options presented at the 2006 Public Consultation**

## **Ymgynghori**

Ymgynghorwyd â sefydliadau rhanddeiliaid, gan gynnwys Cadw, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD), Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Penfro (CSP) ac adrannau eraill o Lywodraeth Cymru, neu maent wedi darparu gwybodaeth. Ystyriwyd eu barnau wrth i'r Cynllun gael ei ddatblygu. Mynychodd y sefydliadau statudol Gyfarfodydd Cyswllt Amgylcheddol a byddant yn parhau i gyfarfod trwy gydol cyfnod datblygu'r Cynllun.

Fe wnaeth trigolion lleol, perchnogion busnes a'r Cyngor Cymuned fynychu arddangosfeydd cyhoeddus yn Llanddewi Felffre a chyfarfod â thîm y prosiect. Ymgynghorwyd yn anffurfiol â gweithredwyr masnachol, diwydiannol, busnes a rhai grwpiau â buddiant. Hefyd, gwahoddwyd yr holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt gan y gofyniad am dir, neu gan newidiadau i ffyrrd mynediad, i lenwi holiadur yn ymwneud â defnyddiau tir presennol.

## **Sgrinio a Chwmpasu**

Paratowyd Adroddiad Sgrinio ac Adroddiad Cwmpasu ac maent wedi'u diwygio i ystyried newidiadau yn y ddeddfwriaeth. Penderfynodd y broses Sgrinio fod angen Datganiad Amgylcheddol ffurfiol, a nododd y broses Gwmpasu y dylai'r testunau amgylcheddol gael eu cynnwys yn yr asesiad o'r effaith amgylcheddol. Rhoddwyd yr Adroddiad Cwmpasu i ymgyngoreion ym mis Awst 2017 a fersiwn ddiwygiedig ym mis Medi 2018. Fe wnaeth hwn bennu manylion cwmpas arfaethedig yr asesiadau amgylcheddol.

Derbyniwyd sylwadau ar yr Adroddiad Cwmpasu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a gofynnwyd am gyngor gan YAD, ar ran Cadw. Ymatebodd CSP yn llawn mewn perthynas â 'datblygiadau eraill' mewn cysylltiad ag effeithiau cronnol. Fe wnaeth y sylwadau hyn, ynghyd ag ymatebion eraill i'r ymgynghoriad, gynorthwyo wrth nodi'r cwmpas ar gyfer y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys faint o waith arolwg oedd ei angen i lywio'r asesiadau.

## **Consultation**

Stakeholder organisations, including Cadw, Dyfed Archaeological Trust (DAT), Natural Resources Wales (NRW), Pembrokeshire County Council (PCC) and other Welsh Government departments, were consulted or have provided information. Their views were taken into account as the Scheme was developed. The statutory organisations attended Environmental Liaison Group Meetings (ELG) and will continue to meet throughout the development of the Scheme.

Local residents, business owners and the Community Council, attended public exhibitions in Llanddewi Velfrey and met with the project team. Commercial, industrial, business operators and some interest groups were informally consulted. All of the landowners affected by the requirement for land, or by changes to access roads, have also been invited to complete a questionnaire relating to existing land uses.

## **Screening and Scoping**

A Screening Report and Scoping Report were prepared and were revised to take account of changing legislation. The Screening process determined that a formal ES was required, while the Scoping process identified the environmental topics that should be included in the Environmental Impact Assessment. The Scoping Report was issued to consultees in August 2017 and a revised version in September 2018. This set out details of the proposed scope of environmental assessments.

Comments on the Scoping Report were received from NRW, and advice sought from DAT, on behalf of Cadw. PCC responded fully with regard to 'other developments' in relation to cumulative effects. These comments, together with other consultation responses, assisted in identifying the scope for the ES, including the amount of survey work required to inform the assessments.

Roedd cwmpas y Datganiad Amgylcheddol yn ystyried gofynion deddfwriaethol, natur, maint a lleoliad y Cynllun a'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarparwyd.

## **Ymagwedd at yr AEA**

Gall effeithiau amgylcheddol niweidiol neu fuddiol ddeillio o adeiladu'r ffordd, neu weithrediad y ffordd. Ystyriwyd yr effeithiau hyn yn unol â deddfwriaeth AEA berthnasol ac arweiniad. Ac eithrio lle mae arweiniad yn mynnu fel arall, disgrifir arwyddocâd effeithiau yn y Datganiad Amgylcheddol gan ddefnyddio'r termau canlynol:

Mawr lawn | Mawr | Cymedrol | Bach | Niwtral

Cafodd yr amodau amgylcheddol presennol a'r amodau amgylcheddol tebygol yn y dyfodol yn absenoldeb y Cynllun eu nodi. Gelwir y rhain yn 'amodau gwaelodlin'. Amodau gwaelodlin y safle a'r ardal astudiaeth sy'n ffurio sail yr asesiad, gan alluogi nodi effeithiau arwyddocaol tebygol y Cynllun.

## **Lliniaru a gwella**

Mae'r AEA yn rhan annatod o arfarniad a dyluniad y Cynllun, gan alluogi'r dylunwyr i ystyried effeithiau amgylcheddol a, lle bo'n ymarferol, i newid y dyluniad er mwyn lleihau neu atal effeithiau niweidiol arwyddocaol rhag digwydd. Cynigiwyd mesurau lliniaru os na all atal neu lleihau effeithiau niweidiol. Gall mesurau lliniaru gynnwys plannu coed a llwyni er mwyn sgrinio golwg traffig o eiddo, plannu coetir newydd fel cynefin newydd ar gyfer pathewod, a tanffordd ar gyfer bywyd gwylt a pobol sy'n defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus. Disgrifiwyd mesuriadau lliniaru mewn mwy o fanylder ym mhob pennod o'r Datganiad Amgylcheddol.

The scope of the ES took into account legislative requirements, the nature, size and location of the Scheme and the consultation responses provided.

## **Approach to EIA**

Adverse or beneficial environmental effects can arise from the construction, or operation of the road. These effects were considered in accordance with the relevant EIA legislation and guidance. Except where guidance requires otherwise, the significance of effects is described in the ES using the following terms:

Very large | Large | Moderate | Slight | Neutral

The existing and likely future environmental conditions in the absence of the Scheme were identified. These are known as 'baseline conditions'. The baseline conditions of the site and study area form the basis of the assessment, enabling the likely significant effects of the Scheme to be identified.

## **Mitigation and enhancement**

EIA is an integral part of the Scheme appraisal and design allowing the designers to consider environmental effects and, where practicable, to change the design to reduce or prevent significant adverse effects from arising. Mitigation measures are proposed if adverse effects cannot be prevented or adequately reduced. Examples of mitigation include planting of trees and shrubs to screen views of traffic from properties, planting of new woodland to provide habitat for dormice and underpasses provided for wildlife and for people using the Public Rights of Way. Proposed mitigation is described in more detail in each chapter of the ES.

## **Asesiad o Effeithiau**

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys adroddiadau, mapiau a lluniadau sy'n cwmpasu'r AEA a gwblhawyd. Mae arwyddocâd yr effeithiau a ragwelir yn seiliedig ar ystyried maint tebygol yr effaith ragweledig a sensitifrywedd y derbynnydd yr effeithir arno. O ran Rheoliadau'r AEA, 'effeithiau arwyddocaol', yn gyffredinol, yw'r rheiny lle mae'r effaith yn 'gymedrol' neu'n fwy. Adroddir hefyd am effeithiau cronol posibl y Cynllun, o'u hystyried ynghyd â datblygiadau arfaethedig eraill, yn y Datganiad Amgylcheddol.

## **Assessment of Effects**

The ES consists of reports, maps and drawings that cover the completed EIA. The predicted significance of effects is based on consideration of the likely magnitude of the predicted impact and the sensitivity of the affected receptor. In terms of the EIA Regulations, 'significant effects' are generally those where the effect is 'moderate' or greater. Potential cumulative effects of the Scheme, when considered together with other proposed developments, are also reported in the ES.

## Daeareg a phriddoedd

Mae'r Cynllun wedi'i leoli tuag at frig gwrym Llanddewi Felffre ac yn croesi tirwedd frysniog yn bennaf gysylltiedig â chymoedd o ffrydaiau sy'n llifo i Afon Taf neu Afon Marlais. Mae'r creigwely gwaelodol o garreg laid yn cynnwys rhywfaint o ddyddodion arwyneb lleol o rewglai. Mae llifwaddod a ddyddodwyd gan gyrsiau dŵr yn bresennol hefyd.

Gallai creigwely gynnwys haenau dyfrddwyn sy'n darparu rhywfaint o dynnu dŵr yn lleol. Gallai'r dyddodion arwyneb ategu tynnu dŵr lleol hefyd a chyflenwi cyrsiau dŵr. Ni nodwyd unrhyw beryglon yn ymwneud ag archwilio mwynau yn y gorffennol na pheryglon daear cyffredinol.

Byddai gweithgareddau'n gysylltiedig ag adeiladu'r argloddiau, trychfeydd a strwythurau, a gweithrediad y Cynllun, yn cael effaith niweidiol niwtral i fach ar y ddaeareg a'r geomorffoleg waelodol.

Byddai'r Cynllun yn effeithio ar ardaloedd ar wahân o dir gwneud, yn gysylltiedig o bosibl â'r rhwydwaith ffyrdd presennol, gweithgareddau amaethyddol neu chwareli neu byllau graean sydd wedi'u mewnllenwi'n hanesyddol, a allai fod yn ffynhonnell halogi bosibl. Mae ffynonellau halogi posibl fel gwaith trin carthion, mynwentydd neu chwareli eraill wedi'u mewnllenwi yn bresennol hefyd yn ardal yr astudiaeth, ond maent yn bell o'r Cynllun. Byddai halogi tir yn cael effaith niweidiol niwtral i fach ar waith adeiladu mewn perthynas â'r derbynyddion amgylcheddol a'r derbynyddion sy'n bobl a nodwyd. Byddai cymhwysyo mesurau rheoli adeiladu arfer gorau yn lleihau'r risgiau i'r amgylchedd. Effaith niwtral fyddai halogi tir yn ei chael ar weithrediad y Cynllun, ac felly ni ystyri'r byddai unrhyw fesurau lliniaru yn angenheidiol yn ystod gweithrediad y Cynllun.

## Geology and soils

The Scheme is located towards the top of the Llanddewi Velfrey ridge and crosses undulating terrain mainly associated with valleys of streams that flow into the Afon Taf or the Afon Marlais. The underlying bedrock of mudstone has some localised superficial deposits of glacial till. Alluvium deposited by watercourses is also present.

Bedrock could contain water-bearing strata that provides some local water abstraction. The superficial deposits may also support local water abstraction and supply watercourses. No hazards relating to past mineral exploration or general ground hazards were identified.

Activities associated with the construction of the embankments, cuttings and structures, and the operation of the Scheme, would have a neutral to slight adverse effect on the underlying geology and geomorphology.

The Scheme would affect discrete areas of made ground, possibly associated with the existing road network, agricultural activities or historical infilled quarries or gravel pits, which could be a potential source of contamination. Potential sources of contamination such as sewage works, burial grounds or other infilled quarries are also present in the study area but are remote from the Scheme. Land contamination would have a neutral to slight adverse effect on construction works in relation to the identified human and environmental receptors. Applying best practice construction management measures would reduce the risks to the environment. Land contamination would have a neutral impact on the operation of the Scheme and therefore no mitigation measures would be considered necessary during the Scheme operation.

## Draenio'r ffordd a'r amgylchedd dŵr

Mae'r amgylchedd dŵr o amgylch y Cynllun yn cynnwys nentydd bach yn nalgylchoedd afonydd Marlais, Cleddau a Thaf, y dŵr daear gwaelodol a nodweddion eraill sy'n ddibynnol ar ddŵr. Byddai aliniad y ffordd yn dilyn llinell gwrym, yn gyffredinol, gyda dwy ardal o drychfeydd islaw lefel bresennol y ddaear a phump o groesfannau nentydd. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau i berygl llifogydd ac nid oes unrhyw ardaloedd dynodedig yn gysylltiedig â gwarcho cronfeydd dŵr gerllaw'r Cynllun.

Byddai effeithiau adeiladu posibl, gan gynnwys dŵr wyneb neu ddŵr ffo gwaddodion a gollyngiadau damweiniol, yn cael eu lliniaru drwy roi arferion gorau'r diwydiant ar waith, a ddisgrifir yn Cynllun Rheoli Amgylcheddol Cyn-Adeiladu. Byddai gostwng lefelau dŵr daear dros dro i adeiladu rhan o drychfa'r ffordd yn cael effaith niweidiol fach ar lif nant fach.

Yn ystod gweithrediad y Cynllun, rhagwelir y bydd effeithiau niweidiol bach ar lifau pedair nant fach yn sgil newidiadau lleol mewn draeniad dŵr daear oherwydd trychfeydd y ffordd. Hefyd, disgwylir effeithiau niweidiol bach ar Afon Daulan (o achos adlunio'r afon drwy cwl fert) a'r dŵr daear o dan y Cynllun (o achos ymdreiddiad dŵr o ddraeniad y ffordd). Byddai dyluniad cwl fertau a system trin draeniad y ffordd yn lliniaru'r effeithiau lleol hyn cyn belled ag y bo'n ymarferol.

At ei gilydd, rhagwelir na fyddai'r effeithiau ar yr amgylchedd dŵr o ganlyniad i adeiladu a gweithredu'r Cynllun yn arwain at unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol.

## Gwarchod natur

Ceir pump o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) o fewn 10km o'r Cynllun (Afonydd Cleddau; Yerbeston Tops; Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston; Sir Benfro Forol; a Bae Caerfyrddin ac Aberoedd) ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) o fewn 30km (Bae Caerfyrddin). O ganlyniad i agosrwydd y safleoedd hyn, cynhaliwyd Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (AIES) a pharatoedd Datganiad i Lywio Asesiad Priodol (DLAP).

## Road drainage and water environment

The water environment surrounding the Scheme includes minor streams in the Marlais, Cleddau and Taf catchments, the underlying groundwater and other water dependent features. The road alignment would generally follow a ridgeline, with two areas of cutting below the existing ground level and five stream crossings. No impacts to flood risk are expected and there are no designated areas for the protection of water reserves near to the Scheme.

Potential construction effects, including surface water or sediment runoff and accidental spillages, would be mitigated by the implementation of industry best practices, which are described in the Pre-Construction Environmental Management Plan (Pre-CEMP). A temporary lowering of groundwater levels to construct a section of road cutting would have a slight adverse impact on the flow of a minor stream.

During operation of the Scheme, slight adverse impacts are anticipated to the flows of four minor streams due to localised changes in groundwater drainage due to the road cuttings. Slight adverse impacts are expected for both the Afon Daulan (as a result of its re-alignment through a culvert) and the groundwater beneath the scheme (due to the infiltration of water from the road drainage). The design of culverts and the road drainage treatment system would mitigate these localised impacts as far as practicable.

Overall, it is anticipated that the impacts on the water environment as a result of the construction and operation of the Scheme would not result in any significant adverse effect.

## Nature conservation

There are five Special Areas of Conservation (SAC) within 10km of the Scheme (Afonydd Cleddau; Yerbeston Tops; Pembrokeshire Bat Sites and Bosherston Lakes; Pembrokeshire Marine; and Carmarthen Bays and Estuaries) and a Special Protection Area (SPA) within 30km (Carmarthen Bay). As a result of the proximity of these sites, an Assessment of Implications on European Sites (AIES) was

Mae hefyd perthi llai dwys ac ardaloedd o goedwig sydd o fudd i fywyd gwylt.

Fe wnaeth arolygon nodi bod pathewod, moch daear a nifer o rywogaethau ystlumod yn bresennol, neu ystyriwyd ei bod yn debygol eu bod yn defnyddio'r ardaloedd cynefinoedd i'w heffeithio gan y Cynllun. Hefyd, nodwyd yn flaenorol fod dyfrgwyr a thylluanod gwyn yn ardal yr astudiaeth hefyd. Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd yn ofynnol cael trwyddedau rywogaethau a warchodir (a geir gan Cyfoeth Naturiol Cymru) ar gyfer ystlumod, pathewod a moch daear cyn dechrau'r gwaith.

Byddai mesurau lliniaru i leihau'r effeithiau o'r cyfnod adeiladu yn cynnwys:

1. Amseru gwaith yn sensitif, gan gynnwys clirio llystyfiant er mwyn osgoi tarfu ar rywogaethau a warchodir ac adar;
2. Gwarchod ardaloedd cynefinoedd bywyd gwylt a lleihau/osgoi difrod i lystyfiant presennol gerllaw'r gwaith. Trawsleoli perthi addas i safleoedd derbyn;
3. Arolygon cyn-adeiladu ar gyfer ystlumod, pathewod, dyfrgwyr a moch daear;
4. Cyfyngiadau ar oriau gweithio er mwyn lleihau goleuadau tasgau yn ystod y nos, yng nghyffiniau cyrsiau dŵr a llinellau hedfan ystlumod allweddol;
5. Mesurau rheoli llygredd a gwaddodion adeiladu; a

undertaken and a Statement to Inform and Appropriate Assessment (SIAA) prepared.

There are also extensive hedgerows and areas of woodland considered of value to wildlife.

Surveys identified that dormice, badgers and several species of bat were present, or considered likely to be using the habitat areas to be affected by the Scheme. Otter and barn owl were also previously identified in the study area. During construction, protected species licences (obtained from NRW) will be required for bats, dormice and badgers prior to the commencement of works.

Mitigation measures to reduce the effects from the construction period would include:

1. Sensitive timing of works, including vegetation clearance to avoid disturbance to protected species and birds;
2. Protecting wildlife habitat areas and minimising/avoiding damage to existing vegetation close to the works. Translocation of suitable hedges to receptor sites;
